PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD MAWRTH, 15 RHAGFYR 2020

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Bridgeman (Cadeirydd),<br>Y Cynghorwyr Cunnah, Hopkins, Melbourne, Phillips a/ac Mia Rees |
| | Aelodau Cyfetholedig: Carol Cobert (Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru), Karen Dell'Armi (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr) a/ac Matthew Richards (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr) |

## 40 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Heather Joyce a gan Patricia Arlotte (Cynrychiolydd yr Eglwys)

## 41 : DATGAN BUDDIANNAU

Derbyniwyd y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

| Aelod Pwyllgor: | Eitem | Natur y Buddiant |
|---|---|---|
| Matthew Richards (Parent Governor Representative) | Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol Adroddiad Blynyddol Mabwysiadu'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd | Diddordeb Personol – yn ymwneud ag achosion mabwysiadu ar hyn o bryd |
| Y Cynghorydd Molik | 5 – Cynigion CGY – Ysgol Uwchradd Cathays | Diddordeb Personol – plant yn mynychu Ysgolion Uwchradd fel rhan o drefniadau Band B. |

## 42 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2020 fel cofnod cywir.

## 43 : GWASANAETH MABWYSIADU RHANBARTHOL CAERDYDD, Y CYMOEDD A'R FRO – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2019/20

Derbyniodd y Pwyllgor gopi Adroddiad Blynyddol Mabwysiadu'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd 2019/20 sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020. Mae'r adroddiad yn dwyn ynghyd mewn un ddogfen adolygiad a dadansoddiad o weithgareddau'r Rhaglen Gydweithredol, ynghyd â nifer o fesurau perfformiad sy'n monitro perfformiad mewn perthynas â'r cyfnodau allweddol yn y broses fabwysiadu i blant, gyda phwyslais arbennig ar amseroldeb cyffredinol y broses. Mae'r adroddiad hefyd yn darparu'r adolygiad blynyddol o'r gwasanaeth fel sy'n ofynnol gan Reoliad

22 o Reoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2007 ac adran 15 (c) o Gyfarwyddyd Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Trefniadau Mabwysiadu ar y cyd) (Cymru) 2015.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey (Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd), Angela Harris (Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol) a Deborah Driffield (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro, Gwasanaethau Plant) i'r cyfarfod.

Gwnaeth y Cynghorydd Hinchey ddatganiad lle cadarnhaodd mai 5ed Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Mabwysiadu ydoedd. Mae pethau cadarnhaol ond mae heriau parhaus hefyd o fewn y gwasanaeth i ateb y galwadau cynyddol am wasanaethau mabwysiadu.

Cafodd yr Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, gofyn am eglurhad pellach neu wneud sylwadau. Mae’r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Trafododd yr Aelodau y duedd ar i lawr mewn atgyfeiriadau yn erbyn nifer cynyddol o blant sy'n derbyn gofal. Nodwyd ganddynt fod y duedd honno'n rhan o'r duedd genedlaethol ac er bod gostyngiad yn y broses o wneud Gorchmynion Lleoli, nid yw o reidrwydd yn ymwneud â gostyngiad yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal, mae'n ymwneud ag awdurdodau'n ystyried dewisiadau amgen eraill fel Perthnasau neu Orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig.

- Holodd yr Aelodau am y rhesymeg y tu ôl i'r dewis i fynychu'r gwahanol ddigwyddiadau ymgysylltu. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod manteision cael Swyddog Marchnata ei hun yn y Gwasanaeth Mabwysiadu bellach yn cael eu gwireddu. Caiff y rhesymau dros gyswllt ac am beidio â datblygu unrhyw geisiadau eu coladu a'u defnyddio i lywio'r ymarfer recriwtio a marchnata. Mae'r digwyddiadau amrywiol a fynychwyd bellach wedi dod i ben oherwydd y pandemig, fodd bynnag, mae llwyfannau digidol bellach yn cael eu defnyddio, maes sy'n cael ei ddatblygu ac mae mwy o sylfaen wybodaeth o ran ble mae darpar fabwysiadwyr yn dod o'r ardaloedd y mae angen eu targedu. Mae ymgyrch genedlaethol yn mynd rhagddi hefyd; roedd eitem newyddion ddiweddar am fabwysiadwyr sengl, a oedd yn llawn gwybodaeth.

  Trafododd yr Aelodau hefyd broffil oedran darpar fabwysiadwyr ac a oes rôl i gynnwys yr ymgyrch hysbysebu ar lawr gwlad. Er y gwneir pob ymdrech i ddenu mabwysiadwyr lleol, mae'r pandemig presennol wedi gwneud cyfranogiad ar lawr gwlad yn llawer anoddach. Y syniad yw cadw cymaint o blant â phosibl yn y rhanbarth.

- Trafododd yr Aelodau'r pwysau ychwanegol ar y tîm o ganlyniad i'r pandemig a sut yr oeddent yn ymdopi. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y staff wedi bod yn gweithio bron ers mis Mawrth 2020. O ran lleoli plant, datblygodd y Gymdeithas Mabwysiadu Genedlaethol broses asesu risg genedlaethol. I ddechrau, ni chafwyd unrhyw leoliadau, ond ar ôl sefydlu'r broses,

ailddechreuwyd y broses leoli.   Mae'n broses hir ac mae angen llawer o gydweithrediad gan bob parti.   O ran y broses recriwtio datblygwyd asesiad risg; yn rhannol rithwir ac yn rhannol wyneb yn wyneb.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn ymwneud â Chymorth Mabwysiadu, cafwyd cynnydd sydyn mewn atgyfeiriadau yn Chwarter 2 – ar ôl y cyfyngiadau cloi a phan ddychwelodd plant i'r ysgol.  Mae staff wedi addasu'n dda i'r ffyrdd newydd o weithio, mae gwasanaethau, hyfforddiant a grwpiau cymorth wedi digwydd ar-lein; mae'r gwasanaeth wedi canfod bod teuluoedd wedi cymryd rhan fwy oherwydd gallant fynychu cyfarfodydd rhithwir.  Mewn perthynas â mabwysiadwyr, disgwylir i'r tîm gymeradwyo 49 o fabwysiadwyr erbyn diwedd Chwarter 3.

- Gofynnodd yr Aelodau, gan fod Caerdydd yn rhan o gydweithrediad y Gwasanaeth Mabwysiadu, a oedd gan Gaerdydd unrhyw nodweddion penodol neu a rannwyd yr un materion a phatrymau.  Dywedwyd wrth yr Aelodau mai'r Gwasanaeth Mabwysiadu yw'r cydweithio mwyaf yng Nghymru gyda dau o'r awdurdodau mwyaf; Caerdydd a RhCT a dau o'r lleiaf.  Mae gwahaniaethau ond o ran ymarfer mae llawer o gysondeb. Caerdydd sy'n darparu'r gwaith mwyaf, mae ganddi boblogaeth amrywiol iawn, o ran y plant a'r mabwysiadwyr sy'n dod ymlaen. Un o'r anawsterau yw nad yw bob amser yn bosibl lleoli plant yng Nghaerdydd, felly ceisiwn annog lleoliadau o bellach i ffwrdd ond o hyd o fewn y rhanbarth.

  Dywedwyd wrth yr Aelodau mai un o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol yw eu bod yn gwasanaethu Panel Mabwysiadu Caerdydd.   Nid oes gofyniad cyfreithiol mwyach i gael Panel Mabwysiadu, fodd bynnag, penderfynwyd y byddai'r Panel yn parhau, mae yna benderfynwr asiantaeth (Cadeirydd), cynghorydd asiantaeth, cynghorydd cyfreithiol, gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr. Mae'r Panel cyfan yn gwneud y penderfyniad, mae'n iawn ac yn briodol bod y Panel hwnnw'n parhau er nad yw'n ofyniad mwyach.   Mae'n benderfyniad trwm i'w wneud.

  Nododd yr Aelodau hefyd mai'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol a'r Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol yw'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau o ran y broses baru yn ystod Covid.   Asesir risg pob sefyllfa er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel, bod eu rhieni biolegol yn ddiogel, bod y darpar fabwysiadwyr yn ddiogel a bod y gofalwyr maeth yn ddiogel.   Mae'n broses gymhleth iawn ac yn enghraifft dda o gydweithio.

  Mae mabwysiadu yn faes gwaith arbenigol, roedd rhywfaint o anesmwythyd pan ddechreuodd y gwaith cydweithredol.   Fodd bynnag, mae wedi bod yn amhrisiadwy.

- Gofynnodd yr Aelodau am y cymorth ychwanegol a ddarparwyd a'r

ymgynghori â phobl ifanc yn ystod Covid. Cyfeiriwyd yr Aelodau at Connected, sy'n cael ei redeg gan Adoption UK. Fel rhan o'r arian buddsoddi a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i wella cymorth mabwysiadu, roedd yn ofynnol i ranbarthau recriwtio cydlynydd plant a phobl ifanc, sy'n cefnogi pobl ifanc o fewn y rhanbarthau ac mae’n mewnbynnu i'r grwpiau hynny. Cyn y cyfyngiadau cloi roedd y cydlynydd yn mynychu 3 grŵp y mis. Nawr mae'r grwpiau'n cael eu rhedeg ar-lein. Nod y gwasanaeth yw cyrraedd mwy o bobl ifanc a allai elwa o gymorth o'r fath a rôl allweddol y Cydlynydd yw hyrwyddo'r gwasanaeth ar draws y rhanbarth. Mae ymgysylltu â phlant a phobl ifanc wedi cynyddu oherwydd cyfarfodydd cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein, mae'r cyfarfodydd yn llai brawychus.

- Trafododd yr Aelodau'r wybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas â'r gwariant cyfartalog fesul plentyn yn fwy ym Mro Morgannwg, ac a oedd hynny'n beth cadarnhaol neu'n negyddol. Nodwyd bod y graffiau'n ymwneud â phecynnau cymorth mabwysiadu gan nad oes gan y Gwasanaeth Mabwysiadu gyllideb ei hun. Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu yn cynnal yr asesiad ac yna mae'r asesiad a'r atgyfeiriad yn mynd at yr awdurdod unigol i wneud y penderfyniad am gymorth. Mae'r symiau amrywiol yn ymwneud â'r math o gymorth sydd ei angen; gall rhai bod yn eithaf costus.

CYTUNWYD: y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu sylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

44 : CYNIGION CYNLLUN TREFNIADAETH YSGOLION

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), Michele Dudridge-Friedl (Rheolwr Gweithredol, Trefnu a Chynllunio Ysgolion) a Richard Portas (Cyfarwyddwr Rhaglen, Trefnu a Chynllunio Ysgol) i’r cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd Melanie Godfrey hefyd i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc fel Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes. Amlinellodd y Cyfarwyddwr yr angen gwirioneddol am newid diwylliannol i ffwrdd o'r hyn sy'n atebolrwydd uchel ei bwys. Fel Pwyllgor, bydd yn golygu mai rhan o'r gwaith o ran craffu fydd monitro addysg a sbarduno gwelliannau.

Ysgol Uwchradd Cathays

Roedd yr eitem hon yn rhoi cyfle i'r Aelodau graffu cyn penderfynu ar y cynigion a'r argymhelliad i'r Cabinet gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion ar gyfer ehangu ac ailddatblygu Ysgol Uwchradd Cathays yn unol â ch ynlluniau blaenoriaeth Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Gwnaeth y Cynghorydd Merry ddatganiad lle cyfeiriodd at yr argymhelliad i ehangu Ysgol Uwchradd Cathays i 8 ffrwd mynediad ac i roi llety adeiladu newydd yn lle'r ysgol ar safle Canolfan Maendy gerllaw Ffordd y Goron a Heol y Gogledd. Mae cynlluniau hefyd i ehangu'r Ganolfan Adnoddau Arbennig o 16 – 50 o leoedd ac uwchraddio cyfleusterau cymunedol ar y safle presennol.

Dywedodd Richard Portas y byddai'r brydles gyda GLL yn cael ei hailweithio ar safle'r Maendy. Mae cynnig MIM hefyd i ddylunio ac adeiladu'r ysgol gyda chwmni Meridiam Investments.

Cafodd yr Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, gofyn am eglurhad pellach neu wneud sylwadau. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Trafododd yr Aelodau gynaliadwyedd ehangu Ysgol Uwchradd Cathays, y goblygiadau teithio a'r cynnydd posibl yn y galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg uwchradd. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod adolygiad wedi'i gynnal; mae achos clir y bydd yr ysgol yn cael ei chynyddu i'r maint cywir. Cathays yw'r falf bwysedd ar gyfer y ddinas ac mae'n rhoi hyblygrwydd. Gweithio gyda datblygwyr i'r gogledd a'r gorllewin o'r ddinas a disgwylir i hynny gefnogi'r achos dros yr ysgol. Bydd galw sylweddol. Mae teithio i mewn i'r ddinas yn un opsiwn llwybr. Mae angen ysgol yn y lleoliad hwnnw, mae'n darparu ar gyfer y dyfodol yn y tymor byr a'r tymor hir.

  O ran teithio, mae Teithio Llesol yn hollbwysig; bydd gostyngiad yn y teithio i Barc y Mynydd Bychan – bydd y cyfleusterau chwaraeon ar y safle ac yn lleol. Bydd yn rhaid ystyried dalgylchoedd maes o law, ond mae angen bod darpariaeth ar waith.

  Bydd cynllun strategol addysg Gymraeg yn cael ei gyflwyno'r flwyddyn nesaf. Mae pwysau cynyddol ac mae cynlluniau ar waith ar gyfer darpariaeth dros dro lle bo angen ar hyn o bryd.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch yr hyn nad yw'r amlen ar gyfer y model MIM yn ei gwmpasu, mae wedi'i chyfyngu i'r ystâd ysgolion ei hun, ond bydd y prosiect yn effeithio ar y llwybr beicio. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad yw'r trac beicio yn cael ei ariannu, caiff ei ystyried fel rhan o'r rhaglen gyffredinol. Dim ond rhai elfennau y mae MIM yn eu cwmpasu ac mae'r elfennau eraill yn cael eu hariannu fel unrhyw brosiect arall. Bydd cyllidebau'n newid wrth i amser fynd yn ei blaen, er enghraifft Fitzalan a bydd angen ei ddiweddaru. Bydd unrhyw gostau arweiniol yn cael eu talu o'r rhaglen gyfalaf, gan gynnwys y trac beicio a fydd yn y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol, ni fydd yn peryglu unrhyw brosiectau Band B eraill.

  Aeth yr Aelodau ymlaen i fynegi pryder am y llwybr beicio sy'n cael ei symud o gofio ei leoliad presennol; a oes sicrwydd o fuddsoddiad; a fydd yn debyg am debyg, h.y. trac awyr agored; ac a oes ymrwymiad y bydd ar waith cyn colli'r cyfleuster presennol. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod adleoli'r llwybr beicio yn cael ei ystyried yn gyfle cyffrous; bydd Papur Cabinet yn mynd yn ei flaen yn y flwyddyn newydd mewn perthynas â'r Pentref Chwaraeon Rhyngwladol. Mae ardal wedi'i neilltuo ar gyfer y trac. Y fantais fydd y bydd yn cysylltu â'r chwaraeon

eraill yn yr ardal. Mae'r ymrwymiad lleiaf yn debyg am debyg, ond bydd budd ychwanegol hefyd. Nodwyd y bydd y trac yn ei le cyn yr ysgol.

- Gofynnodd yr Aelodau am gynlluniau amlinellol ar gyfer y safle, ond fe'u cynghorwyd nad oes unrhyw ddyluniadau hyd yma; mae o hyd yn y cyfnod o edrych ar ddiwydrwydd dyladwy.

- Gofynnodd yr Aelodau pam fod Ysgol Uwchradd Cathays yn cael blaenoriaeth yn hytrach nag ysgolion eraill lle mae'r galw am leoedd yn uchel. Esboniwyd bod nifer o ystyriaethau; cyflwr yr adeiladau; dalgylchoedd; a'r galw. Mewn rhaglen o'r raddfa hon mae'n rhaid blaenoriaethu adnoddau. Nid Cathays yw'r ysgol nesaf, mae cynllun enfawr yn ardal y Tyllgoed ar hyn o bryd. Blaenoriaethwyd ysgolion eraill cyn Cathays.

  Gofynnodd yr Aelodau am fanylion amodau ysgolion yn unol â'r amcanestyniadau er mwyn galluogi'r Pwyllgor i ystyried y rhesymau dros wneud Cathays yn brosiect blaenoriaeth dros ysgolion eraill. Dywedwyd wrth yr Aelodau y cynhaliwyd ymarfer blaenoriaethu mawr ar ddechrau'r prosiect Band B. Nid oedd y broses honno'n ymwneud â chyflwr yn unig, ac roedd hefyd yn cynnwys digonolrwydd lleoedd a meini prawf allweddol eraill. Ystyriwyd ysgolion eraill bryd hynny, a gwnaed y penderfyniad i symud ymlaen gyda'r rhaglen bresennol. Efallai y bydd angen mynd i'r afael ag ystyriaethau pellach yn y dyfodol.

- Mynegodd yr Aelodau bryder am ddigonolrwydd a chynaliadwyedd darpariaeth y Ganolfan Adnoddau Arbennig ac ADY. Bydd cynnydd o 16 lle i 50. O gofio pa mor gyflym y mae diagnosisau'n cael eu gwneud, a yw’r cynnydd yn ddigonol ac yn gynaliadwy. Nododd yr Aelodau fod asesiad manwl yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ystyried y galw a'r angen i sicrhau y gallwn fodelu'r newidiadau sy'n digwydd. Ar hyn o bryd mae'r gwahanol opsiynau'n cael eu mapio a'r goblygiadau sy'n gysylltiedig â hynny. Mae Canolfannau Adnoddau Arbennig yn ffordd dda o integreiddio plant i addysg brif ffrwd. Mae'n rhywbeth y mae'n rhaid adeiladu arno. Ni ddisgwylir iddo ddiwallu'r holl angen o fewn y Ddinas ond bydd gwaith yn parhau i gyflawni hynny.

- Gofynnodd yr Aelodau am gynlluniau ar gyfer y broses ymgynghori i amlinellu'r amseriadau a hefyd natur yr ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynlluniwyd fel rhan o'r broses honno. Dywedwyd wrth yr Aelodau y bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno ym mis Chwefror. Mae'n broses sydd wedi'i datblygu dros y blynyddoedd. Mae ymgysylltu ar hyn o bryd yn anos ac mae'r ffordd orau o gyfathrebu ac integreiddio â'r gymuned yn dal i gael ei hystyried. Dysgwyd gwersi o ymgynghoriad cynllunio Fitzalan, mae'n rhaid eu hystyried. Mae llu o opsiynau o'r Cyfryngau Cymdeithasol hyd at ddulliau mwy ffurfiol. Fodd bynnag, mae angen mwy o fanylion cyn y gellir ei gyflwyno.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at yr awgrym bod arian Adran 106 yn cael ei glustnodi; yr hyn y gallai hynny fod yn ei wneud yn nhermau arian parod; a phryd y byddai ar gael. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod rhai ar gyfer yr ardal, ei bod ar gyfer prosiectau iard chwarae ac nid ar gyfer y prif gynllun.

- Holodd yr Aelodau am y cyfeiriad at uwchraddio cyfleusterau cymunedol ac a fyddai'r cynlluniau'n cael eu dwyn yn ôl i'r Pwyllgor i graffu ymhellach arnynt ac a fyddai'r wybodaeth honno'n cael ei chynnwys yn yr ymgynghoriad. Nododd yr Aelodau fod y broses trefniadaeth ysgolion yn anodd ar y sail bod yn rhaid cael cynigion ac ymgynghoriad cyn cwblhau unrhyw ddyluniadau. Bydd y wybodaeth, pan fydd ar gael, yn rhan o'r ymgynghoriad cynllunio. Mae honno'n broses gadarn.

Ysgol Mynydd Bychan

Rhoddodd yr eitem hon gyfle i'r Aelodau graffu cyn penderfynu ar y cynigion a'r argymhelliad i'r Cabinet gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion ar gyfer darparu ysgolion cynradd i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd.

Dywedodd Richard Portas, Cyfarwyddwr Rhaglen, fod gan y cynnig yr elfennau canlynol:

- Gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Mynydd Bychan o 0.9 Dosbarth Mynediad (DM) i 1.5 DM o fis Medi 2022. Lleolir y lleoedd i ddechrau yn Ysgol Gynradd Allensbank;
- Bydd Ysgol Gynradd Allensbank yn cael ei chydgrynhoi yn 1 DM o fis Medi 2022; a
- Chynnydd dros dro i nifer derbyn y flwyddyn dderbyn o 30 i 45 o fis Medi 2021 os oes angen.

Bydd angen ymgynghoriad ar y cynigion hyn.

Cafodd yr Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, gofyn am eglurhad pellach neu wneud sylwadau. Mae’r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Nododd yr Aelodau mai'r cynnig yn y tymor byrrach yw symud rhan o'r ysgol (Ysgol Mynydd Bychan) i safle Ysgol Gynradd Allensbank a gofyn pa mor dros dro bydd y trefniant hwnnw. Hysbyswyd yr Aelodau y bydd lleoliad lleoedd ysgol yn Allensbank ond yn cael ei ddefnyddio os oes angen ar gyfer Medi 2021. Mae'n sicr bod angen edrych ar ateb tymor hir.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at y gwarged o 29% a ragwelir o ddarpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg erbyn 2023 - 2024 ac a fydd angen cynigion mwy effeithiol maes o law ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Dywedwyd wrth yr Aelodau ei bod

yn gwbl amlwg bod angen ymgysylltu'n llawn â'r gymuned maes o law ynglŷn â beth yw'r cynigion tymor hir.

Mae'r ffigurau poblogaeth yn gostwng ar draws y ddinas, nid yw'n unigryw i eleni ac mae cyfluniad anarferol o ysgolion yn yr ardal honno. Mae trefniadau rhannu safleoedd yn gymhleth. Mae'r galw'n cael ei nodi yn unol â pholisi.

- Mynegodd yr Aelodau bryderon am grwpiau blwyddyn oedran cymysg y bydd angen 1.5 DM ar eu cyfer, ac a yw'r cynnydd nid yn unig yn benderfyniad ariannu gan ei bod yn anodd iawn i arweinyddiaeth yr ysgol ei reoli. Roedd pryderon hefyd ynglŷn â'r effaith ar arweinyddiaeth a llywodraethu ysgolion rhwng y rhieni a'r ysgol a gefnogir.

  Dywedwyd wrth yr Aelodau mai un o'r prif resymau dros gyflwyno'r 0.5 DM oedd yn rhannol i ddiogelu Ysgol Glan Ceubal. Y syniad yw tyfu'r dalgylch yn hytrach na chymryd o ysgol cyfrwng Cymraeg arall. Cynhaliwyd ymgynghoriad â'r Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr, nid yn unig gan Ysgol Mynydd Bychan ac Allensbank, ond hefyd ag Ysgol Clan Ceubal mewn perthynas ag unrhyw effaith. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud. Bydd angen ymgynghori â'r ddwy ysgol ynghylch pa grŵp blwyddyn y dylid ei symud. Mae hwn yn fodel sydd wedi'i ddefnyddio o'r blaen i dyfu ysgolion yn enwedig ysgolion Cyfrwng Cymraeg.

  Mae cymaint o fantais ar y sail a fydd yn y Cyfnod Sylfaen ac felly nid yw'n critigol o ran oedran. Bydd yn dibynnu ar y niferoedd sy'n bresennol, ond yn arferol byddai gennych 2 ddosbarth derbyn llai yn rhedeg. Ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2 byddai'n rhaid cael deialog pellach ynglŷn â sut mae'r plant yn cael eu trochi a lefel eu dysgu. Cafwyd sgyrsiau lle cafwyd cadarnhad o'r angen i ysgogi galw a peidio â symud disgyblion o un ysgol i'r llall a thrwy hynny beryglu hyfywedd yr ysgol newydd.

CYTUNWYD: y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

45 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chyflwynwyd unrhyw eitemau brys.

46 : Y FFORDD YMLAEN

Trafododd yr Aelodau'r wybodaeth a dderbyniwyd gan nodi nifer o broblemau y cytunai'r Cadeirydd fyddai'n cael eu cynnwys yn y llythyrau fyddai'n cael eu hanfon, ar ran y Pwyllgor, at yr Aelodau Cabinet a'r Swyddogion perthnasol.

47 : ADRODDIAD BUSNES Y PWYLLGOR

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

48 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor am 4:30pm ar ddydd Mawrth 19 Ionawr 2021.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.00 pm